
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun y Trydydd Sector





## Adroddiad Blynyddol 2015-16

Mawrth 2017

# Cynnwys

**Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o waith ymgysylltu Llywodraeth Cymru yn y Trydydd Sector yn ystod 2015-16.**


3 Rhagair gan Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

4 Safbwynt y Sector: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)

5 Edrych ymlaen at 2016-17

7 Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Trydydd Sector – Perthnasoedd, Ymgysylltu a Chynllun y Trydydd Sector

13 Sut a Pham mae Llywodraeth Cymru yn Cefnogi Gwirfoddolwyr

17 Cefnogi'r Trydydd Sector – Rôl sefydliadau Seilwaith a galluogi'r Trydydd Sector i ffynnu a chyflawni

23 Cyllid a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i sefydliadau'r Trydydd Sector 2015-16

29 Ffynonellau gwybodaeth bellach


## Astudiaeth Achos


6 Galluogi Plant i Chwarae'n Well – Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy – Datblygu a Darparu Blychau Chwarae

10 FareShare Cymru

12 GemauStryd

16 Cefnogi Amrywiaeth yn ein Cymunedau – Rainbow Biz

20 Cynhwysiant Digidol a'i Rôl yn y Trydydd Sector

22 Prosiect Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol

26 Menter Gymdeithasol Gymunedol – Cambrian Aquatics/Pwll Nofio Cei Connah

27 Rhoi Cymorth i Ofalwyr – Canolfan Gofalwyr Abertawe

28 Busnes Cymdeithasol – Elite Paper Solutions (EPS)

# Rhagair

Rwyf yn falch o fod yn gyfrifol am oruchwylio gwaith Llywodraeth Cymru o ran cefnogi ac ymgysylltu â'r sefydliadau menter gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol yng Nghymru, sy'n cael eu hadnabod gyda'i gilydd fel y "Trydydd Sector".

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, pan oedd fy nghydweithiwr yn y Cabinet, Lesley Griffiths, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi bryd hynny, yn gyfrifol am oruchwylio'r Trydydd Sector.

Yn 2015-16 roedden ni'n canolbwyntio ar gynnal ein hymrwymiad i gefnogi ac ymgysylltu â'r Trydydd Sector er mwyn datblygu polisi a rhoi darpariaeth i'r rheini rydyn ni'n eu gwasanaethu – sef pobl a chymunedau Cymru.

Mae'n bwysig bod tystiolaeth gref ar gael i ddangos beth mae'r Sector yn ei wneud i'n helpu ni i gyflawni ein hamcanion.

Yn 2015-16 fe wnaethon ni barhau i gydweithio er mwyn:

- datblygu mecanweithiau gwell i sicrhau ymgysylltu adeiladol rhwng y Trydydd Sector a Llywodraeth Cymru;
- targedu cymorth Llywodraeth Cymru er mwyn galluogi'r Trydydd Sector i ddal ati i wneud yr hyn mae wedi'i wneud gystal yn y gorffennol, gan annog y Trydydd Sector i ystyried rhannu adnoddau a gweithio ar y cyd;
- ac yn bwysicaf oll, creu diwylliant o wirfoddoli ledled Cymru, gan bwysleisio eto ar ba mor bwysig yw gwirfoddolwyr i fywyd yng Nghymru.

Edrychaf ymlaen yn fawr at barhau i gydweithio'n agos â'r Sector, gan sicrhau bod ein perthynas ar drywydd cadarn a chadarnhaol ar gyfer y dyfodol, er mwyn cyfoethogi bywydau pobl yng Nghymru. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i ddiolch i'r holl wirfoddolwyr ledled Cymru sy'n cyfrannu cymaint i'n cymdeithas.





**Carl Sargeant AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

# Safbwynt y Sector

## Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)

Mae'r Trydydd Sector yng Nghymru yn gasgliad bywiog ac amrywiol o elusennau cofrestredig, cymdeithasau gwirfoddol a grwpiau cymunedol. Fel y gwelwch wrth ddarllen ymlaen yn yr Adroddiad hwn, mae ymchwil gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) yn awgrymu bod dros 30,000 o fudiadau gwirfoddol yng Nghymru, a 938,000 o wirfoddolwyr. Mae'r sector werth £3.8 biliwn ac mae'n weithredol ym mhob cymuned ledled Cymru.

WCVA yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n cysylltu'r Trydydd Sector yng Nghymru, yn darparu cefnogaeth er mwyn galluogi sefydliadau i gyflawni eu hamcanion ac yn dylanwadu ar y rheini sy'n gwneud penderfyniadau ledled y sector cyhoeddus a'r sector preifat, yn ogystal â dinasyddion unigol, ar lefel genedlaethol. Mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn darparu cymorth a chyngor yn lleol er mwyn galluogi'r sector i ffynnu ac i gyfrannu at gymdeithas sifil weithredol.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid gwerthfawr er mwyn galluogi Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac WCVA i gydweithio a gweithredu fel Cefnogaeth y Trydydd Sector yng Nghymru.

Un peth mae'r cyllid hwn yn canolbwyntio arno'n benodol yw annog ymgysylltu drwy Gynllun y Trydydd Sector. Mae'r cynllun yn amlinellu prosesau ac egwyddorion pwysig ar gyfer partneriaethau er mwyn i'r sector ystyried a thrafod materion strategol gyda Llywodraeth Cymru. Bydd cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal â Gweinidogion Cymru a bydd cynnydd yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod y gwerth ychwanegol mae profiad y trydydd sector yn ei gyfrannu, ar sail y dystiolaeth gan bobl mewn cymunedau ledled y wlad, yn cael ei ystyried.

## Newid y tirlun

Mae'r tirlun economaidd a chymdeithasol wedi newid cryn dipyn eleni.

Mae pobl wedi colli ymddiriedaeth mewn elusennau yn y Trydydd Sector, ac mae'r Sector yn ymwybodol bod gwaith i'w wneud i adennill yr ymddiriedaeth honno. Ni ellir pwysleisio digon pa mor bwysig yw llywodraethu da, o ran aelodau o'r cyhoedd yn cyfrannu arian ac yn gwirfoddoli o'u hamser, yn ogystal ag ymddiriedaeth cyllidwyr cyhoeddus.

Yn sylfaenol, mae mwy o alw ar y sector ac mae'n wynebu mwy o heriau o ran adnoddau sy'n golygu bod rhaid i ni adolygu a gwerthuso ein gwaith yn gyson er mwyn sicrhau bod yr hyn rydym yn canolbwyntio arno yn glir ac yn berthnasol. Mae gwneud yn siŵr bod ein profiad yn cael ei gyfleu i Lywodraeth Cymru yn allweddol i'n rôl o ran dylanwadu ar bobl a rhoi gwybodaeth iddynt.

Rydyn ni'n croesawu ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i egwyddor y sector ynghylch annibyniaeth, a phwysigrwydd llais y sector o ran darparu gwybodaeth i sicrhau polisi da.

# Edrych ymlaen at 2016-17

Mae un peth yn sicr, ni fydd parhau i weithredu yn yr un ffordd yn opsiwn yn y dyfodol. Mae nifer o ddatblygiadau sylweddol o'n blaenau a fydd yn effeithio ar y Trydydd Sector, gan gynnwys deddfwriaeth yn dod i rym sy'n canolbwyntio ar les pobl a chymunedau yn y dyfodol. Mae newid yn ffordd o fyw i'r Trydydd Sector. Rydyn ni'n ymfalchïo yn ein dyfeisgarwch ac yn ein hymwybyddiaeth o anghenion a'n gallu i'w diwallu mewn modd cynhwysol ac ymatebol.

Mae'r berthynas rhwng y sector a Llywodraeth Cymru yn aeddfedu. Mae'n seiliedig ar ymddiriedaeth ac mae angen manteisio ar gyfleoedd i roi cynnig ar ddulliau newydd er mwyn mynd i'r afael â materion y bernir eu bod yn "rhy anodd delio â nhw". Mae'r sector yn cefnogi unigolion, yn gweithio mewn cymunedau ac yn gallu darparu tystiolaeth a data ynghylch yr hyn sy'n gweithio o ran polisi cyhoeddus ledled portffolios y Llywodraeth.

Ni fyddwn yn cytuno bob amser ac nid ydym yn bwriadu ffurfio perthynas sy'n ymddangos yn "glyd", ond yn hytrach un lle mae'r ddau bartner yn herio, sy'n iach mewn cymdeithas agored a thryloyw.

Ni ddylid tanbrisio pwysigrwydd datganoli o ran sefydlu'r fframweithiau a nodir yn yr adroddiad hwn. Ni ddylem gymryd pwysigrwydd y fframweithiau hyn yn ganiataol, ac fe ddylem barhau i ddysgu a gwella er mwyn meithrin perthynas effeithiol rhwng y sector cyhoeddus a'r Trydydd Sector.

Mae'n bwysig iawn cynnal deialog cyson â Llywodraeth Cymru, ac mae Cynllun y Trydydd Sector yn darparu sail gadarnhaol i adeiladu arni.



**Peter Davies CBE**
Cadeirydd



**Ruth Marks MBE**
Prif Weithredwr

# Astudiaeth Achos

## Galluogi Plant i Chwarae'n Well – Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy – Datblygu a Darparu Blychau Chwarae



Mae plant wedi manteisio ar y cyfle i addurno'r Blwch Chwarae



Plant lleol yn chwarae

**Creodd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy brosiect newydd o'r enw Blychau Chwarae, mewn perthynas â Thîm Datblygu Chwarae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.**
www.cvsc.org.uk/cy/cvsc-play-development/

Cynwysyddion mawr sy'n cael eu rhoi mewn cymunedau a'u llenwi ag adnoddau diogel i blant chwarae â nhw yw Blychau Chwarae. Caiff y blychau eu hagor a'u clirio gan wirfoddolwyr.

Lansiwyd y prosiect mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf. I ddechrau, aeth y Tîm Datblygu Chwarae at gymunedau a mynd i gyfarfodydd er mwyn cyflwyno'r syniad, wedyn bu Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy yn gweithio gyda Chymdeithas Tai Cartrefi Conwy er mwyn gosod y blwch yn ei le ar dir y Gymdeithas.

Yn ystod gwyliau'r haf, bu Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy yn cynorthwyo rhieni i agor y blwch a defnyddio'r adnoddau, ac nawr mae gennym chwech o wirfoddolwyr sy'n fodlon bod yn gyfrifol am yr "allwedd" i'r blwch. Mae hyfforddiant achrededig yn cael ei ddarparu i wirfoddolwyr ac aelodau eraill o'r gymuned sydd â diddordeb, ac mae Busnes yn Cefnogi Cymunedau wedi darparu rhagor o gymorth i'r prosiect drwy gynnig cyngor gan gyfreithwyr ac yswirwyr ynglŷn ag atebolrwydd y blwch a'i gynnwys.

Gall y plant ddefnyddio'r adnoddau fel y mynnent, sy'n eu galluogi i archwilio eu potensial, ni waeth beth yw eu hoedran, eu hil, eu rhyw na'u gallu meddyliol neu gorfforol. Mae'r blwch wedi annog plant lleol i 'chwarae y tu allan' yn fwy aml ac am fwy o amser.

Mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy wedi cynnal trafodaethau â'r cyngor ynglŷn ag atgynhyrchu'r cynllun peilot hwn, a fyddai'n mynd i'r afael â blaenoriaethau sy'n ymwneud â gwella safbwyntiau pobl am blant yn chwarae a helpu rhieni i deimlo'n fwy hyderus i adael i'w plant fynd allan i chwarae. Mae'r cynllun Blychau Chwarae hefyd yn cyfrannu at Ddyletswydd Statudol Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol yng nghyswllt darparu digon o gyfleoedd i chwarae.

# Sut Mae Llywodraeth Cymru yn Gweithio Gyda'r Trydydd Sector

## Perthnasoedd, Ymgysylltu a Chynllun y Trydydd Sector

### Beth yw'r Trydydd Sector?

Y gwir amdani yw oherwydd natur amrywiol y sector mae'n eithaf anodd ei ddiffinio'n bendant. Mae'r Trydydd Sector yn rhychwantu bron bob agwedd ar ddiddordeb dynol. Mae'n cynnwys mudiadau cymunedol, grwpiau hunangymorth, sefydliadau gwirfoddol, elusennau, sefydliadau ffydd, mentrau cymdeithasol, busnesau cymunedol, cymdeithasau tai, mentrau cydweithredol a mudiadau cydfuddiannol i enwi ond ychydig.

Maent i'w cael ar amrywiol ffurfiau sefydliadol, gan gynnwys elusennau cofrestredig ac anghofrestredig, cwmnïau cyfyngedig drwy warant (y gallent hefyd fod yn elusennau cofrestredig), Cwmnïau Buddiannau Cymunedol, Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus a chymdeithasau anghorfforedig. Mae gan bob sefydliad ei nodau ei hun, ei ddiwylliant unigryw, set o werthoedd a'i ffordd o wneud pethau, ond maent i gyd yn rhannu rhai nodweddion pwysig:

- maent yn gyrff anllywodraethol, annibynnol, wedi'u sefydlu'n wirfoddol gan ddinasyddion sy'n dewis trefnu;
- maent yn cael eu sbarduno gan 'werthoedd' a'u cymell gan yr awydd i hybu amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol, yn hytrach na dim ond gwneud elw; ac
- maent wedi ymrwymo i ail-fuddsoddi unrhyw arian dros ben i hybu eu hamcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol.

Rydym yn dal wedi'n hargyhoeddi bod dadl gref dros ystyried cyrff sydd â'r nodweddion hyn fel sector penodol – un sy'n gwneud cyfraniad aruthrol i les cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydnabod a hybu'r Trydydd Sector. Rydym yn gwerthfawrogi ei gyfraniad i les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor Cymru, a'i phobl a'i chymunedau.

Mae ein perthynas yn dibynnu ar onestrwydd, ymddiriedaeth a pharch at ein gilydd. Nid ydym yn gweithredu diwylliant lle rydym yn disgwyl i'r Sector gytuno â ni bob amser ac rydym yn croesawu heriau adeiladol. Rydym yn cydnabod bod sefydliadau Trydydd Sector yn gyrff annibynnol sy'n pennu eu blaenoriaethau eu hunain ac sy'n rheoli eu materion eu hunain. Mae gan y Trydydd Sector ddyletswydd i gynrychioli buddiannau'r bobl sy'n rhan ohono yn bennaf oll. Mae'n rhaid iddynt weithredu yn unol â'r egwyddorion y maent wedi'u sefydlu arnynt. Maent yn atebol i'w haelodau a'r unigolion a'r cymunedau y maent yn gweithio gyda nhw, ac i gyrff rheoleiddio megis y Comisiwn Elusennau dros Gymru a Lloegr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i aeddfedu'r berthynas hollbwysig hon sydd wedi datblygu dros gyfnod hir, er budd pobl a chymunedau yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru wedi addo y byddant yn parhau i gwrdd â chynrychiolwyr y Trydydd Sector i drafod pryderon neu bynciau penodol sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr. Bydd y cyfarfodydd hyn yn ystyried gwaith Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, y gallwch ddarllen rhagor amdano yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

## Cynllun y Trydydd Sector

Mae Cynllun y Trydydd Sector, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2014, yn cynnwys fframwaith sy'n dangos sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Trydydd Sector. Mae'n ymdrin â threfniadau ymgynghori, gweithio mewn partneriaeth â'r Sector ac ariannu.

Mae Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector (caiff ei drafod ymhellach ym Mhennod 5 yr adroddiad hwn), sy'n atodiad i Gynllun y Trydydd Sector, yn nodi'r prosesau ar gyfer dyrannu cyllid i'r Trydydd Sector yng Nghymru a'r ymrwymiad mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gan y Sector ar ôl derbyn y cyllid.
www.gov.wales/docs/dsjlg/publications/comm/140130-third-sector-scheme-en.pdf

## Beth sydd yn y Cynllun?

Nod Cynllun y Trydydd Sector yw sicrhau partneriaeth er mwyn ein helpu i ddatblygu a chefnogi prosesau a fydd yn y pen draw yn arwain at y canlynol:

- **Cymunedau cryfach a chadarnach** – y ffordd y mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwneud cyfraniad gwirfoddol i fywiogrwydd ac adfywiad eu cymunedau, yn darparu gofal ac yn helpu i feithrin hyder a sgiliau pobl; a'r cyfleoedd y mae'r Trydydd Sector yn eu creu o ran cyflogaeth a menter yn lleol;
- **Polisi gwell** – y wybodaeth a'r arbenigedd y mae'r Trydydd Sector yn eu cynnig drwy ei brofiad rheng flaen er mwyn helpu i lunio polisïau, gweithdrefnau a gwasanaethau;
- **Gwasanaethau cyhoeddus gwell** – y rôl arloesol a thrawsnewidiol y gall y Trydydd Sector ei chwarae er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cyrraedd mwy o bobl ac yn dod yn fwy sensitif i'w hanghenion.

Mae Cynllun y Trydydd Sector yn nodi sut mae'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru (a'i hasiantaethau cyflenwi) a'r Trydydd Sector yn gweithio o ran:

- Rhannu safbwyntiau a gwybodaeth am effaith y Trydydd Sector ar bolisi a gweithredu yn y dyfodol, a'r cyfraniad y gall y Trydydd Sector ei wneud, drwy gynnal prosesau ymgynghori a chanfod yn gynnar;
- Mynd ati ar y cyd i gynllunio, dylunio, monitro a gwerthuso rhaglenni a chynlluniau sy'n cynnwys y Trydydd Sector;
- Cyllid ar draws amrywiaeth eang o feysydd polisi, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol; a
- Diddordeb a rennir yn y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus ehangach yn rhyngweithio â'r Trydydd Sector.

Mae'r Cynllun hefyd yn rhoi sylw i'r themâu trawsbynciol, sef Trechu Tlodi, Datblygu Cynaliadwy, Cydraddoldeb a'r Gymraeg.

## Sut rydym yn siarad â'n gilydd?

Mae Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector yn cynnal amryw o sianelau er mwyn cyfathrebu ac ymgysylltu â'i gilydd:

### Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector

Mae Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn cynnwys cynrychiolwyr o 25 o gategorïau a nodir yn y Trydydd Sector a thri chynrychiolydd o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae'n darparu fforwm gwerthfawr i drafod materion strategol a thrawsbynciol.

Yn ystod 2015-16, trafododd y Cyngor Partneriaeth eitemau amrywiol a oedd o ddiddordeb i Lywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, roedd trafodaethau yn cynnwys:

- Rôl y Trydydd Sector yng nghyswllt Camau Ataliol.
- Mecanwaith ar gyfer ymgysylltu.
- Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol.

## Cyfarfodydd Gweinidogol gyda'r Trydydd Sector

Mae'r cylch o gyfarfodydd rhwng pob un o Weinidogion Cymru a chynrychiolwyr rhwydweithiau Trydydd Sector sy'n berthnasol i'w portffolios wedi parhau i fod yn sail i ddeialog. Roedd y pynciau a drafodwyd yn 2015-16 yn cynnwys y canlynol:

- Trechu Tlodi a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- Cynhwysiant Ariannol; ac
- Amcanion Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru.

Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru: www.gov.wales/topics/people-and-communities/communities/voluntarysector/ministers/?skip=1&lang=cy

# Astudiaeth Achos

## FareShare Cymru



Paratoi Bwyd yn FareShare

**Cafodd FareShare Cymru (**www.fareshare.cymru/**) £50,000 o gyllid craidd gan Lywodraeth Cymru yn 2015-16.**

Mae FareShare wedi bod yn gweithredu fel elusen annibynnol ers 2004 er mwyn mynd i'r afael â dau fater brys – tlodi bwyd a gwastraff bwyd. Maent yn dargyfeirio'r bwyd bwytadwy sy'n cael ei drin fel gwastraff gan weithgynhyrchwyr a manwerthwyr ac yn ei ddosbarthu i bobl dan anfantais ledled Cymru.

Maent yn cymryd bwyd dros ben a fyddai'n cael ei wastraffu fel arall gan nad oes modd ei fasnachu mwyach. Mae'r dyddiad ar yr holl fwyd yn nodi ei fod yn iawn i'w fwyta, ac mae'n dal yn ddiogel ei fwyta. Wedyn maent yn ailddosbarthu'r bwyd i sefydliadau lleol, yn ei rannu i becynnau o faint defnyddiol ar gyfer y sefydliadau maent yn gweithio gyda nhw, ac yn ei ddosbarthu iddynt.

Cafodd FareShare Cymru afael ar 580 o dunelli o fwyd dros ben (a fyddai wedi cael ei wastraffu) o'r diwydiant bwyd ac ailddosbarthu 540 o dunelli i Aelodau Bwyd Cymunedol (Community Food Members).

Cafodd y bwyd hwn ei ddefnyddio i greu dros 1.28 miliwn o brydau ar gyfer pobl agored i niwed yn Ne Cymru, a ddarparwyd drwy Aelodau Bwyd Cymunedol FareShare. Ddiwedd mis Mawrth 2016, roedd FareShare yn dosbarthu bwyd i 46 o sefydliadau yng Nghaerdydd, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Torfaen a Phen-y-bont ar Ogwr, ac roedd 55 o Fudiadau Bwyd Cymunedol Cyswllt eraill yn elwa o fenter FoodCloud gan FareShare ledled Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin ac Abertawe.

Byddai gwaith FareShare wedi bod yn amhosib heb y gwirfoddolwyr ymroddgar a roddodd o'u hamser i helpu. Cyfrannwyd cyfanswm o 12,286 o oriau gan wirfoddolwyr. Ymgymerodd gwirfoddolwyr â 31 o gyrsiau hyfforddi yn y depo a esgorodd ar 22 o gymwysterau, gan gynnwys Diogelwch Bwyd Lefel 2, Cymorth Cyntaf mewn Argyfwng a Thrwyddedau ar gyfer Wagenni Fforch Godi. Hefyd, aeth deg o wirfoddolwyr rheolaidd ymlaen i gael swyddi â thâl yn ystod 2015-16.

Dyma rai enghreifftiau o'r sylwadau a gafwyd ynghylch y gefnogaeth a ddarparwyd gan FareShare yng Nghanolfan Gymunedol Heol Moorland, Caerdydd:

> *"Mae cymorth FareShare wedi bod yn amhrisiadwy i'n clwb cinio ni ar Heol Moorland. Maen nhw wedi'n helpu ni'n ariannol yn ogystal â'n galluogi ni i fwydo pobl ynysig yn ein cymuned. Mae ansawdd y cynnyrch rydyn ni'n ei gael yn wych!"*
>
> *"Mae FareShare wedi bod yn fendith ac wedi cael effaith aruthrol ar gymaint o fywydau."*
>
> *"Mae hi'n dda iawn gweld nad yw bwyd dros ben yn cael ei wastraffu ac, yn bwysicach fyth, ei fod yn mynd i'r bobl sydd ei angen fwyaf."*



Canolfan Gymunedol Heol Moorland, Caerdydd – Clwb Cinio

# Astudiaeth Achos

## GemauStryd



Cyfranwyr GemauStryd gyda'u gwobrau




Plant yn mwynhau Clwb GemauStryd Dros Dro

**Yn 2007 lansiwyd yr elusen GemauStryd, sy'n cyflwyno chwaraeon i gymunedau dan anfantais. Mae'n hyrwyddo chwaraeon fel modd o gyflawni newid cymdeithasol mewn cymunedau dan anfantais ac mae'n helpu pobl ifanc dan anfantais i wneud eu gorau glas drwy gymryd rhan mewn mentrau chwaraeon a'u harwain.**

Ar hyn o bryd, mae GemauStryd yn gweithio gyda 45 o'r 52 o Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf, yn annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon ac yn cefnogi rhwydwaith o brosiectau sy'n rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ym meysydd chwaraeon a gwirfoddoli. Mae'r dull cyflwyno, "Chwaraeon ar Garreg y Drws", yn dod â chwaraeon yn nes at y cartref gyda'r gobaith y bydd yn dod yn rhan gynaliadwy o wead cymunedau. Mae'r prosiectau yn cynnwys:

- Canfod cyfleuster lleol sy'n addas,
- Canfod hyfforddwyr chwaraeon lleol sy'n gallu bod yn esiampl,
- Gwirfoddolwyr a gweithwyr ieuenctid yn cael hyfforddiant ar ddarparu chwaraeon ar garreg y drws,
- Gwirfoddolwyr lleol ifanc yn cynnal sesiynau,
- Datblygu a chynyddu cyfranogiad gan grwpiau targed mewn gweithgareddau/ sesiynau sy'n bodoli eisoes.

Ar ddiwedd 2015-16, roedd gan GemauStryd 38,045 o gyfranogwyr yn sgil y prosiect Chwaraeon ar Garreg y Drws, a 1,382 o gyfranogwyr yn sgil y prosiect Gwirfoddolwyr Ifanc.

# Sut a pham mae Llywodraeth Cymru yn Cefnogi Gwirfoddolwyr

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod cyfrannu arbenigedd neu amser gwirfoddol er mwyn cefnogi eraill (yn rhad ac am ddim i'r unigolyn, y gymuned neu'r grŵp, a heb elw ariannol i'r gwirfoddolwr) yn nodwedd hanfodol o ddinasyddiaeth dda.

Mae gwirfoddolwyr yn parhau i wneud gwahaniaeth enfawr i bobl a chymunedau ledled Cymru, gan ddod â budd i bob agwedd bron ar fywyd bob dydd, a chyfrannu at ddarparu llawer o wasanaethau cyhoeddus a chynlluniau'r Llywodraeth.

Yn y pen draw, mae gwirfoddoli yn ymwneud â helpu eraill a chael effaith ar les pobl. Mae gwirfoddolwyr yn cael cymaint o fudd â'r unigolion a'r cymunedau maent yn eu helpu.

Mae Adnodd Ystadegol y Trydydd Sector ar gyfer 2016 gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru www.wcva.org.uk/about-us/news/2016/08/third-sector-statistical-resource-2016?seq.lang=cy-GB yn nodi bod oddeutu 938,000 o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgarwch gwirfoddol ledled Cymru. Mae gan Gymru boblogaeth o ychydig dros 3 miliwn, ac mae'n cynnal ei thraddodiad o gefnogi eraill.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gwerth a'r effaith a gaiff gwirfoddoli ar fywydau pobl ledled cymunedau ac mae wedi darparu cyllid sylweddol i sicrhau bod llwybrau cefnogaeth ar gael i'r rheini sydd am wneud yr hyn a allant i eraill.

Rydym hefyd yn ymwybodol o'r manteision gwirioneddol i unigolion sy'n gwirfoddoli:

- **Gall gwirfoddoli roi ymdeimlad o bwrpas – rhywbeth i'w wneud, sydd o fudd i'r sawl sy'n gwirfoddoli ac i'r unigolyn/achos y mae'n ei helpu**

  Gall bod â "dim byd i'w wneud" gael effaith negyddol iawn ar hunan-barch a hunan-dyb rhywun. Mae'n siwrnai anodd, â llawer o rwystrau i'w goresgyn, ond gall cyrraedd pen y daith a chael canlyniadau cadarnhaol fod yn fuddiol ynddo'i hun.

  Yn y pegwn arall, does dim byd gwell na chael help llaw. Gall gwirfoddolwyr wneud bywyd yn well i bob un ohonom.

- **Gall gwirfoddoli roi profiad i chi ar gyfer eich gyrfa**

  Cael swydd a'i chadw yw'r ffordd orau un o wella ansawdd bywyd unigolion. I'r rheini sy'n chwilio am gyfleoedd gwaith, mae gwirfoddoli yn rhoi cyfle i roi cynnig ar yrfa newydd heb wneud ymrwymiad hirdymor. Mae hefyd yn cynnig cyfle i ennill profiad mewn maes newydd, ac i ddysgu sgiliau newydd. Mae llawer o gyfleoedd gwirfoddoli yn rhoi hyfforddiant helaeth. Mae meddu ar fwy o brofiad a sgiliau dymunol yn gwella siawns ymgeiswyr mewn marchnad swyddi gystadleuol.

- **Gall gwirfoddoli roi hwb i'ch gyrfa**

  I rai sydd eisoes mewn gwaith, gall gwirfoddoli helpu i fagu profiad mewn maes diddordeb a chwrdd â phobl yn yr un maes. Mae gwirfoddoli'n rhoi cyfle i ymarfer sgiliau pwysig a ddefnyddir yn y gweithle, megis gweithio mewn tîm, cyfathrebu, datrys problemau, cynllunio prosiectau, rheoli tasgau a threfnu.

## Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwirfoddoli?

Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu arian "craidd" i'r Trydydd Sector yng Nghymru er mwyn lleihau unrhyw gostau gweinyddol a gwella effeithlonrwydd a chefnogi'r hyn yr ydym yn ei ddisgrifio'n gyffredin fel Cefnogaeth y Trydydd Sector yng Nghymru, neu'r "Seilwaith" (esbonnir ymhellach ym Mhennod 5).

Rydym wedi datblygu cytundeb gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddol, sy'n nodi beth mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'w phartneriaid yn y Trydydd Sector ei wneud am y cyllid "craidd" sy'n cael ei ddarparu.

Mae'n rhoi manylion am amcanion amrywiol a gynlluniwyd er mwyn sicrhau bod pobl neu sefydliadau sy'n dymuno manteisio ar gyngor, cefnogaeth ac arweiniad ledled Cymru yn cael gwasanaeth unffurf o safon uchel.

Mae Canolfan Wirfoddol ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae pob un ohonynt yn sefydliad Trydydd Sector ac, yn y rhan fwyaf o achosion, maent yn rhan o'r Cyngor Gwirfoddol Sirol perthynol. Mae pob un o'r Canolfannau Gwirfoddol yng Nghymru yn darparu gwasanaeth o'r un safon yn unol â'r fframwaith a ddarperir gan y Cytundeb Partneriaeth cyffredinol.

Yn ystod y cyfnod hwn o'r Adroddiad, parhaodd Llywodraeth Cymru i gefnogi dwy Raglen Wirfoddoli benodol – y naill a'r llall yn cael eu gweinyddu ar ein rhan gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru – sef Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru a GwirVol.

Nod Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru oedd:

- Cefnogi prosiectau gwirfoddoli ffurfiol sy'n ceisio recriwtio, cefnogi, hyfforddi a lleoli gwirfoddolwyr newydd;
- Annog ymarfer da wrth wirfoddoli;
- Helpu i ddatblygu gwirfoddoli mewn meysydd llai datblygedig, er enghraifft grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, meysydd sydd â llai o gyfleoedd neu fathau o gyfleoedd gwirfoddoli.

Roedd grantiau o hyd at £25,000 ar gael drwy'r gronfa hon, i'w defnyddio tuag at gostau cydgysylltydd gwirfoddolwyr, hyfforddiant a chostau teithio gwirfoddolwyr, a rhai eitemau cyfalaf.

Roedd GwirVol yn cynorthwyo pobl ifanc i ymwneud â gwirfoddoli mewn sawl ffordd, gan gynnwys y Cynghorwyr Gwirfoddoli Ieuenctid sydd wedi'u lleoli yn y Canolfannau Gwirfoddol ledled Cymru. Roedd y Cynghorwyr Gwirfoddoli Ieuenctid yn cynnig cyngor a gwybodaeth ynglŷn â sut i ddod yn wirfoddolwr. Roeddent yn rhoi cyfle i bobl ifanc siarad am yr hyn roedden nhw eisiau ei wneud a beth roedden nhw eisiau ei gael o'r profiad.

Roedd y cynghorwyr gwirfoddoli ieuenctid hefyd yn bartneriaid cyflawni lleol ar gyfer Dyfarniad Gwirfoddolwyr y Mileniwm Llywodraeth Cymru sy'n dathlu 50, 100 a 200 awr o wasanaeth gwirfoddol.

Yn ystod y cyfnod hwn o'r adroddiad, dechreuodd y gwaith o ymchwilio i'r posibilrwydd o symleiddio cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwirfoddoli a darparu gwasanaeth di-dor i wirfoddolwyr presennol a darpar wirfoddolwyr.

Bydd rhaglen newydd Gwirfoddoli Cymru yn dod yn rhan o'r ffrwd cyllido yn 2016-17 a bydd rhagor o fanylion yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiadau Blynyddol ar gyfer 2016-17.

Hefyd, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid er mwyn cynorthwyo ein partneriaid allweddol yn y Trydydd Sector i ddarparu'r gwasanaeth hwn drwy Gyllideb Seilwaith y Trydydd Sector Llywodraeth Cymru. Nodir y dyraniadau ar gyfer 2015-16 isod:

| Dyraniadau | |
|---|---|
| Cyllid Craidd Canolfannau Gwirfoddoli a Chynghorau Gwirfoddoli Sirol | £4,042,398 |
| Cyllid Craidd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | £873,459 |
| Cronfa Gwirfoddoli yng Nghymru | £935,802 |
| GwirVol | £539,694 |
| Cronfa Datblygu Potensial Partneriaethau – grantiau i rwydweithiau Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector | £97,273 |
| **CYFANSWM** | **£6,488,626** |

**Grantiau ar gyfer Dyraniadau i Gynghorau Gwirfoddol Sirol**

| Ardal | |
|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | £167,171 |
| Castell-nedd Port Talbot | £169,532 |
| Abertawe | £217,394 |
| Gwent | £600,303 |
| Torfaen | £168,122 |
| Conwy | £170,427 |
| Sir Ddinbych | £169,634 |
| Sir y Fflint | £174,953 |
| Gwynedd | £222,521 |
| Ynys Môn | £166,059 |
| Wrecsam | £170,376 |
| Cyngor Gwirfoddol Sirol Caerdydd | £145,475 |
| Canolfan Wirfoddol Caerdydd | £63,988 |
| Cyngor Gwirfoddol Sirol Bro Morgannwg | £108,917 |
| Canolfan Wirfoddol Bro Morgannwg | £77,058 |
| Merthyr Tudful | £165,146 |
| Rhondda Cynon Taf | £206,695 |
| Sir Gaerfyrddin | £189,250 |
| Ceredigion | £169,578 |
| Sir Benfro | £169,378 |
| Powys | £350,421 |
| **CYFANSWM** | **£4,042,398** |

Nid dyma'r unig gyllid a ddarperir i sefydliadau'r Trydydd Sector yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cefnogaeth, cyllid craidd a chyllid prosiect i lawer o sefydliadau Trydydd Sector eraill.

Mewn llawer o achosion mae'r cronfeydd hyn yn ymwneud â meysydd gwaith arbenigol a chytunir ar y cyllid gan y Gweinidog priodol yn Llywodraeth Cymru. Ceir ychydig mwy o wybodaeth gryno am y cyllid ehangach hwn ym Mhennod 6.

# Astudiaeth Achos

## Cefnogi Amrywiaeth yn ein Cymunedau – Rainbow Biz



Gŵyl Amrywiaeth, Glannau Dyfrdwy

**Sefydlwyd Rainbow Biz (**www.rainbowbiz.org.uk/**) – yn Sir y Fflint yn 2015 gan Sue a Sarah, sy'n bartneriaid oes. Menter gymdeithasol ydyw sy'n cefnogi unigolion o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ac o gefndiroedd tlawd, gyda'r bwriad o hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gymuned leol.**

Trefnodd Rainbow Biz eu Gŵyl Amrywiaeth gyntaf yng Nglannau Dyfrdwy ym mis Ebrill 2016. Roedd yn llwyddiannus iawn ac maent wrthi'n cynllunio eu hail ddigwyddiad.

Caiff digwyddiadau eu staffio gan wirfoddolwyr o'r gymuned leol, gan gynnwys unigolion agored i niwed ac ynysig yn gymdeithasol. Mae'n rhoi profiad gwaith a sgiliau cyflogadwyedd gwerthfawr iddynt, yn ogystal â'u grymuso a'u hysbrydoli i wneud cyfraniad yn eu cymuned.

Mae Busnes Cymru wedi helpu i ddatblygu'r busnes.

> *"Rhoddodd Busnes Cymru gyfle i ni ymgysylltu ag ymgynghorydd busnes profiadol, a wnaeth ein helpu ni i oresgyn nifer o broblemau yn ogystal â rhoi cyngor gwerthfawr i ni ynglŷn â chyfeiriad ein mudiad. Gweithiodd yr ymgynghorydd yn agos iawn gyda ni i'n helpu ni i sicrhau cyllid gan y Loteri Genedlaethol ar gyfer ein digwyddiadau ac i wneud yn siŵr bod gennym ni lif cyson o arian."*
>
> *"Roedd ein hymgynghorydd Busnes Cymru yno i ni bob amser, hyd yn oed ar fyr rybudd, ac rydyn ni'n ddiolchgar iawn iddo am ein helpu ni gyda holl agweddau hanfodol ein busnes ac am ein rhoi ni ar ben ffordd pan oedd angen rhagor o gefnogaeth arnom ni."*

# Cefnogi'r Trydydd Sector

## Rôl Sefydliadau Seilwaith a Galluogi'r Trydydd Sector i Ffynnu a Chyflawni

### Seilwaith y Trydydd Sector: grymuso sefydliadau i gael effaith gadarnhaol ym mhob cwr o Gymru

Mae'r Trydydd Sector yng Nghymru yn ymwneud ag amrywiaeth enfawr o weithgareddau ym meysydd newid hinsawdd, trechu tlodi, gwasanaethau cyhoeddus, trafnidiaeth gymunedol, iechyd a gofal cymdeithasol a mwy.

Mae'n dibynnu ar ddinasyddion gweithgar yn dod yn rhan o'r gweithgareddau hyn, ac yn ffynnu ar hynny. Mae Llywodraeth Cymru, drwy Gynllun y Trydydd Sector a Chytundeb Partneriaeth y Seilwaith drwy Gefnogaeth i'r Trydydd Sector yng Nghymru (TSSW), yn cefnogi Seilwaith Trydydd Sector sy'n cynrychioli, yn hyrwyddo, yn cefnogi ac yn atebol i'r Trydydd Sector ar bob lefel.

Mae'r Seilwaith, sy'n cynnwys yn bennaf Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddol, yn hyrwyddo ac yn cefnogi gwirfoddolwyr a gwirfoddoli ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Hefyd, mae'n cefnogi sefydliadau a gwirfoddolwyr y sector i greu newid cadarnhaol yn eu cymunedau, yn ogystal â helpu sefydliadau i fonitro eu heffaith a'u canlyniadau.

### Ystadegau allweddol

Yn ystod 2015-16

- cafodd 8,168 o gyfleoedd eu rhoi ar y wefan a ariennir gan Lywodraeth Cymru, www.volunteering-wales.net, a chafwyd dros 197,000 o ymweliadau â hi;
- Cafodd dros 865,000 o daflenni gwybodaeth am redeg a rheoli sefydliadau eu lawrlwytho o wefannau seilwaith, gan gynnwys cyfres newydd o dair taflen ar wirfoddoli;
- Derbyniwyd ac ymatebwyd i 3,802 o ymholiadau ar arferion da wrth reoli gwirfoddolwyr;
- Derbyniwyd ac ymatebwyd i 6,785 o ymholiadau gan ymddiriedolwyr;
- Derbyniwyd ac ymatebwyd i 9,994 o ymholiadau am gyngor ynghylch cyllid a llwyddodd y grwpiau a gafodd gyngor i sicrhau dros £35.5 miliwn o gyllid;
- Trefnwyd 773 o gyrsiau hyfforddi, gan ddenu 7,298 o gyfranogwyr;
- Dyfarnwyd dros £9.6 miliwn o gyllid drwy amrywiaeth o gynlluniau benthyca/grantiau.

## Gwirfoddoli

Mae www.gwirfoddolicymru.net yn wefan ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli ledled Cymru. Mae'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i rheoli gan WCVA, sy'n gweithio gyda Chanolfannau Gwirfoddol a sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr.

Mae Canolfannau Gwirfoddol yn darparu cyngor ac arweiniad i wirfoddolwyr drwy'r wefan, wyneb yn wyneb, dros y ffôn, dros e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r canolfannau, ynghyd â sefydliadau sy'n ymwneud â gwirfoddolwyr, yn cynnig hyfforddiant ar ddatblygiad proffesiynol a phersonol, a bydd gwirfoddolwyr yn cael tystysgrifau a chymwysterau.

Cefnogodd Llywodraeth Cymru y Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru yn 2015-16, a chyfrannodd 3,729 o wirfoddolwyr 483,955 o oriau o waith gwirfoddol.

Ar stondin WCVA yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst 2015, lansiodd Llywodraeth Cymru ei Pholisi Gwirfoddoli, yn dwyn yr enw *Cefnogi Cymunedau – Newid Bywydau*, yn dilyn ymgysylltu â'r Trydydd Sector drwy Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector.

## Darparu gwybodaeth ac arwain y sector

Mae Seilwaith y Trydydd Sector yn darparu gwybodaeth ac arweiniad i wirfoddolwyr a sefydliadau am amrywiaeth o bynciau gan gynnwys cyllid, llywodraethu, rheoli gwirfoddolwyr, recriwtio, sefydlu sefydliad a mwy.

Mae'r WCVA yn darparu gwasanaeth Desg Gymorth hefyd, sy'n cynnig cymorth i'r ymholydd, neu'n ei gyfeirio at rywun arall all roi rhagor o gymorth iddo: (0800) 2888329.

## Hyfforddiant a chyflogaeth

Mae'r Trydydd Sector yn cynnig amrywiaeth eang o raglenni mentora a hyfforddiant sy'n rhoi cyfle i gyfranogwyr ddysgu sgiliau a gwybodaeth newydd. Mae'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn gweithio gyda sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol eraill er mwyn cynnig amrywiaeth o gyrsiau arbenigol sy'n edrych, er enghraifft, ar reoli prosiectau, ymwybyddiaeth o wahaniaethu, cymorth cyntaf ac ysgrifennu cofnodion. Maent yn cynnal sesiynau mewn canolfannau cymunedol a llyfrgelloedd hefyd gyda'r bwriad o helpu pobl, er enghraifft, i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol neu'r rhyngrwyd.

Mae WCVA yn cynnig sgiliau gweithio ymarferol i'r rheini sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli ar gyfer sefydliadau'r Trydydd Sector. Gall hyn ddigwydd drwy gyrsiau traddodiadol, neu seminarau, "gweminarau" a dysgu ar-lein yn ei Hafan Dysgu, gan edrych ar bynciau fel rhoi cyflwyniadau, mesur effaith a diogelu. www.learningzone.wales/?lang=cy

## Ymddiriedolwyr effeithiol a llywodraethu da

Mae ymddiriedolwyr yn cynnig arweiniad, eglurder ac atebolrwydd ar draws y Trydydd Sector. Mae Llywodraeth Cymru a Chefnogaeth i'r Trydydd Sector yng Nghymru, wedi ymrwymo i sicrhau bod ymddiriedolwyr yn cael yr holl gefnogaeth sy'n angenrheidiol iddynt allu bod yn effeithiol yn eu rôl.

Gallant gael gafael ar y gefnogaeth hon mewn sawl ffordd, o hyfforddiant i seminarau a gweithdai, yn ogystal â'r diweddaraf o wefannau, e-fwletinau, cylchlythyrau a'r cyfryngau cymdeithasol. Hefyd, cynhaliodd WCVA ei Gynhadledd Cyfraith Elusennau ym mis Mawrth 2016, gan ganolbwyntio ar ddatblygiadau rheoleiddiol a chyfreithiol, yn ogystal â chyflwyno'r diweddaraf am Gyfraith Cyflogaeth.

## Cael arian a chyngor

Mae Cefnogaeth i'r Trydydd Sector yng Nghymru yn helpu sefydliadau i sicrhau cyllid er mwyn iddynt allu cyflawni eu nod, boed hynny i sicrhau grantiau, contractau caffael neu gyllid ar ffurf benthyciad.

Mae cefnogaeth ac arweiniad i'r sector yn cynnwys chwilio am gyllid; cymorth ymarferol gyda cheisiadau am gyllid; arallgyfeirio incwm;

codi arian; cynllunio busnes; rheolaeth ariannol; tendro; masnachu; a chydweithio.

Mae gwasanaeth Cynigion Gwell WCVA yn cynnig cyngor i sefydliadau wrth iddynt ddatblygu eu ceisiadau am arian i raglen Pobl a Lleoedd y Gronfa Loteri Fawr a rhaglenni eraill.

Rhai enghreifftiau:

- Gofynnodd Cyfeillion Amgueddfa Ceredigion am gymorth gan brosiect Catalydd Cymru WCVA i'w helpu i baratoi strategaeth codi arian, adnabod cyllidwyr posibl i anfon ceisiadau atynt, ac adolygu ceisiadau am gyllid.
- Buddsoddodd Buddsoddi Cymdeithasol Cymru arian yn Vi-Ability er mwyn iddynt allu creu Football CEO, gêm ar ddyfais symudol sy'n edrych ar effaith rhedeg clwb pêl-droed fel busnes, a phwysigrwydd clwb i'w gymuned. Rhoddwyd yr elw yn ôl i Vi-Ability i ariannu llefydd ar eu rhaglenni hyfforddiant.
- Cafodd Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST) grantiau gan y Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru a Chronfa Gwirfoddoli ymysg Pobl Ifanc GwirVol i recriwtio 83 o wirfoddolwyr, a gyfrannodd 4,216 o oriau o wirfoddoli hyd at ddiwedd trydydd chwarter 2015-16.

## Polisi: rhoi llais i'r sector

Mae Cefnogaeth i'r Trydydd Sector yng Nghymru yn gweithio i sicrhau bod y Trydydd Sector yn gallu cyfrannu at bolisi ar bob lefel o wneud penderfyniadau.

Ar lefel genedlaethol, rhoddir cyfleoedd i leisiau gael eu clywed drwy grwpiau cynllunio strategol a fforymau a rhwydweithiau cefnogi, ac mae gwybodaeth am ymgyngoriadau perthnasol yn cael ei hyrwyddo drwy amrediad o sianeli cyfathrebu'r seilwaith.

Mae WCVA yn ymateb i'r ymgyngoriadau hyn ac adolygiadau eraill, gan roi adborth gan y sector. Yn 2015-16, ymatebwyd i ymgyngoriadau ar Dreth Gwarediadau Tirlenwi, fersiwn ddrafft o Fil Cymru, a chynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2016-17.

Mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn chwarae rhan mewn partneriaethau allweddol gyda'r sector cyhoeddus yn eu hardaloedd, ac yn gweithio i sicrhau mewnbwn y sector i bartneriaethau rhanbarthol sy'n cael eu sefydlu. Cynhaliodd Cefnogaeth i'r Trydydd Sector yng Nghymru ddigwyddiadau ymgynghori ar ddangosyddion drafft Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gyda mewnbwn o'r digwyddiadau hyn yn cyfrannu at ymateb WCVA.

## Trechu tlodi a gwella gweithgarwch economaidd

Trefnodd WCVA ddigwyddiad cenedlaethol, *Ewrop yn Bwysig i Gymru – Trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol*, gan ddarparu gwybodaeth am gyfleoedd cyllid yr UE i drechu tlodi a phwyso a mesur Strategaeth Gwrth-dlodi Cymru. Anerchwyd y digwyddiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar y pryd.

Cafodd y Gweinidog gyfle hefyd i gwrdd â Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector i drafod camau atal tlodi. Cyflwynodd Cynghorau Gwirfoddol Sirol ymateb i'r ymgynghoriad ar Strategaeth Tlodi Plant Cymru.

Mae'r Gronfa Cynhwysiant Gweithredol yn cael cymorth gan Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ac yn cael ei rheoli gan WCVA. Y nod yw gwella cyflogadwyedd y rheini sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur. Dyfarnwyd dros £3.5 miliwn yn 2015-16 i helpu sefydliadau i gynnig hyfforddiant a phrofiad i bobl ddi-waith. Ymgeisiodd 145 o sefydliadau am gyllid, ac roedd 88% ohonynt o'r Trydydd Sector. Mae cyfranogwyr y rhaglen Cynhwysiant Gweithredol wedi cael gwaith mewn galwedigaethau mor eang â ffermio, gofal plant a chadw gwenyn.

Mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddol yn gweithio gyda phobl ddi-waith hefyd yn eu helpu i fynd yn ôl i weithio – er enghraifft, rhoddodd Canolfan Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr gefnogaeth i 19 o bobl fynd i wirfoddoli, a chafodd bump o'r rhain waith. Mae Cyngor Gwirfoddol Sirol Castell-nedd Port Talbot (NPTCVS) yn gweithio gyda phobl sydd yn y rhaglen Dychwelyd i Weithio i gynnig sgyrsiau buddiol ar fanteision gwirfoddoli a chyrsiau hyfforddi achrededig ar gymorth cyntaf mewn argyfwng ac ymwybyddiaeth o faterion ariannol.

# Astudiaeth Achos

## Cynhwysiant Digidol a'i rôl yn y Trydydd Sector



Gwirfoddolwr digidol yn rhannu ei brofiad o'r rhyngrwyd

Rhaglen Llywodraeth Cymru Welsh Government Programme

Cymru Ddigidol Digital Wales

**Mae rhaglen Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru Cymunedau Digidol Cymru yn cynnig cefnogaeth i sefydliadau'r Trydydd Sector (yn ogystal â sefydliadau cyhoeddus a phreifat) sy'n gweithio gyda'r unigolion hynny sydd fwyaf tebygol o gael eu hallgáu'n ddigidol i'w helpu i wella eu bywydau.**

Mae'r rhaglen yn cefnogi sefydliadau sydd mewn sefyllfa dda i helpu pobl i wneud y mwyaf o dechnolegau digidol, drwy eu helpu i ymgysylltu â chleientiaid; defnyddio gwirfoddolwyr; a darparu hyfforddiant i staff rheng flaen. Gall gwella sgiliau digidol unigolion weddnewid eu cyfleoedd mewn bywyd, gwella deilliannau dysgu a chyflogaeth, neu leihau teimladau o unigrwydd ac arwahanrwydd drwy eu cadw mewn cysylltiad â ffrindiau neu deulu.

# Cyfle i gael Mynediad – Mental Health Matters Wales

Mae Mental Health Matters Wales (www.mhmbcb.com/) wedi'i leoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac mae'n elusen annibynnol, anwleidyddol a dielw sy'n gweithio gyda phobl sydd â phroblemau'n ymwneud ag iechyd meddwl, mudiadau gwirfoddol eraill a gwasanaethau statudol, i hyrwyddo lles meddyliol a sicrhau bod ystod gynhwysfawr o wasanaethau iechyd meddwl ar gael yng Nghymru. Cawsant fenthyg offer gan raglen Cymunedau Digidol Cymru i helpu i ymgysylltu ag aelodau a chwsmeriaid a throsglwyddo sgiliau digidol sydd eu hangen arnynt.



Gwirfoddolwr digidol yn rhannu ei brofiad o'r rhyngrwyd

*"Rydym yn ceisio annog defnyddwyr ein gwasanaeth i ddefnyddio ein gliniaduron ac iPads. Rydym yn eu helpu i fynd ar-lein, a dysgu mwy o wybodaeth ac ymgyfarwyddo â'r offer. Gyda'r offer a gawsom gan y rhaglen Cymunedau Digidol Cymru, mae defnyddwyr ein gwasanaeth yn mynd ar-lein ac yn ei ddefnyddio i siopa, chwilio'n gyffredinol, cofrestru ar gyfer cyrsiau, cael gwybodaeth am y GIG, a delio ag atgyfeiriadau at asiantaethau eraill.*

*Mae un o ddefnyddwyr ein gwasanaeth, a oedd wedi cofrestru ar gwrs mewn coleg lleol, yn defnyddio'r offer i wneud ei waith cwrs. Rydym yn cyrraedd 500 o ddefnyddwyr gwasanaeth, ac oni bai am yr offer a gawsom gan y rhaglen Cymunedau Digidol Cymru, rydw i'n meddwl na fyddai tua 80% ohonynt yn cael mynediad at dechnoleg ddigidol. Pan fyddan nhw'n dod i mewn i'w ddefnyddio, mae rhai o'r defnyddwyr gwasanaeth yn amlwg wrth eu bodd."*


**Ceri Bosley, Gweithiwr Gwasanaethau Cymunedol, Mental Health Matters Wales**

# Astudiaeth Achos

## Prosiect Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol



Sesiwn Cyngor Ariannol



Cael mynediad at wefan Egluro Arian Cymru

**Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Canolfan Cydweithredol Cymru ar hyn o bryd i ddarparu'r cynllun Hyrwyddwyr Cynhwysiant Ariannol. Mae'r cynllun hwn ar waith ers mis Ebrill 2011 a chaiff ei ariannu tan 31 Mawrth 2017. Mae'r arian yn cefnogi amcanion Llywodraeth Cymru i drechu tlodi ac allgáu ariannol yng Nghymru.**

Nod cyffredinol y gwaith hwn yw darparu adnodd i gynnig gweithgaredd strategol a chefnogaeth ar lefel ranbarthol i hyrwyddo a datblygu atebion i fynd i'r afael â thlodi a materion cymdeithasol drwy gynhwysiant ariannol a rheoli arian. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu un swydd amser llawn ac un gweithiwr rhan-amser.

Mae'r £75,000 a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn helpu i feithrin gallu a chodi ymwybyddiaeth ar draws y Sector Cyhoeddus a'r Trydydd Sector ynghylch materion sy'n cyfrannu at allgáu ariannol yng Nghymru, a sut mae modd mynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae'r cynllun wedi datblygu'r wefan www.egluroarian.cymru yn ogystal â'i chynnal. Mae'r wefan yn cynnig gwybodaeth ddiduedd a gwasanaethau cynghori i bobl, i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am y gwasanaethau ariannol sydd ar gael iddynt.

Mae'r wefan www.egluroarian.cymru yn dangos sut mae technoleg ddigidol yn gallu helpu staff allweddol, sy'n ceisio mynd i'r afael ag allgáu ariannol, i gydlynu eu gweithgareddau'n well a rhannu dulliau ymarfer nodedig drwy ddefnyddio cyfleuster porth yr ymarferydd. Er enghraifft, mae'r safle yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pobl i gael gafael ar y Gronfa Cymorth Dewisol, ond gall unigolion edrych ar wahanol agweddau ar reoli cyllideb hefyd.

# Cyllid a Chefnogaeth Llywodraeth Cymru i Fudiadau'r Trydydd Sector – 2015-16

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr Adroddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r Trydydd Sector er mwyn adolygu a diwygio ei Chod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector.

Isod, ceir nodiadau esboniadol ar y mathau o gyllid y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i gefnogi sefydliadau'r Trydydd Sector.

## Cymorth Grant neu "Grant"

Mae gan Lywodraeth Cymru bedwar math o arian grant:

- Cyllid craidd strategol i sefydliadau cenedlaethol;
- Cyllid i brosiectau penodol ar lefel genedlaethol;
- Cefnogaeth i bartneriaethau neu gyrff cyfryngol cenedlaethol (Cymru gyfan) er mwyn iddynt hwy gefnogi prosiectau penodol ar lefel leol;
- Cyllid sefydlu i sefydliadau neu rwydweithiau cenedlaethol neu, drwy gyrff cyfryngol, i fudiadau lleol.

## Cyllid Craidd

Mae Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector yn diffinio Cyllid Craidd fel a ganlyn:

> *"Mae cyllid craidd yn anodd iawn i'w ddiffinio gan fod llawer o amrywiadau o ran yr hyn sy'n cyfrif fel cyllid craidd gan ddibynnu ar y cyd-destun, fel maint neu natur mudiad. Fel arfer, bydd cyllid craidd yn cael ei roi i ariannu sefydliad Trydydd Sector i ymgymryd â gweithgareddau y mae'r sefydliad Trydydd Sector yn eu dewis o fewn paramedrau cyffredinol y cytunwyd arnynt â chorff cyhoeddus. Defnyddir cyllid craidd os yw lefel yr ymddiriedaeth rhwng y corff cyhoeddus a'r sefydliad Trydydd Sector yn uchel.*
>
> *O dan gyllid craidd, bydd y berthynas rheoli rhwng y sefydliadau Trydydd Sector a'r corff cyhoeddus yn un hyd braich yn fwriadol. Fel arfer, mae'r corff cyhoeddus yn rhoi cyngor ar ei flaenoriaethau unwaith y flwyddyn. Mewn perthynas sy'n seiliedig ar gyllid craidd, ni ddylai prosesau'r corff cyhoeddus i fonitro a gwerthuso'r sefydliad Trydydd Sector fod yn un rhy lawdrwm a dylai trefniadau atebolrwydd bwysleisio atebolrwydd yr ymddiriedolwyr (neu unigolion cyfatebol).*
>
> *Fel arfer, bydd cyllid craidd yn caniatáu i'r corff a ariennir i gyflawni ei weithgareddau allweddol fel y'u diffiniwyd yn ei ddogfen lywodraethu. Bydd cyllid craidd gan amlaf yn cael ei roi am gyfnod penodol (hyd at 3 blynedd) ond gellir ei ddyfarnu am gyfnod parhaus. Er nad yw trefniadau cyllido'n debygol o fod yn hwy na thair blynedd, gwneir ymrwymiad i gynyddu'r cyfnod pan fydd hynny'n bosibl, er mwyn lleihau unrhyw gostau gweinyddol a gwella effeithlonrwydd y trefniadau cyllido."*

## Cyllid ar gyfer Prosiectau

Yng nghyd-destun cyllid grant, mae cyllid prosiect yn cyfeirio at arian a delir i gyflawni canlyniadau o ganlyniad i brosiect unigol o fewn rhaglen cyllid grant. Gellir defnyddio cyllid prosiect tuag at gostau refeniw e.e. cyflogau a chostau cynnal o ddydd i ddydd, a/neu gostau cyfalaf e.e. costau sy'n gysylltiedig â datblygu neu brynu eitemau cyfalaf megis adeiladau.

Bydd cyllid ar gyfer gweithgareddau prosiect am amser cyfyngedig yn unig. Os oes cyfyngiad amser ar gyfer prosiect penodol (llai na 12 mis yn aml), a'i fod y tu allan i gylch blwyddyn ariannol, ni fydd tri mis o rybudd ynghylch cyllid cyn dechrau'r prosiect bob amser yn realistig nac yn ddymunol.

## Caffael

Caffael yw cael nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr trydydd parti, fel arfer drwy drefniadau tendro, o dan delerau contract sy'n rhwym mewn cyfraith. Mae contractau o'r fath o fudd i'r awdurdod contractio ac maent yn angenrheidiol er mwyn iddo allu cyflawni ei fusnes neu ei ddyletswydd statudol.

Mae gwybodaeth ynglŷn â'r contractau sydd ar gael i'w gweld ar wefan GwerthwchiGymru Llywodraeth Cymru: www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/

## Beth sydd yn y Cod?

Mae'r **Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector** (y Cod) yn nodi sut y dylai Llywodraeth Cymru a'i hasiantau ariannu'r Sector.

Mae'r Cod yn nodi'r mathau o gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, yr egwyddorion y dylid seilio penderfyniadau ariannu arnynt, a'r telerau a'r trefniadau ar gyfer cynnig cyllid.

Anogir Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol i ddatblygu eu codau ymarfer eu hunain ar ariannu'r Sector.

**SYLWER: Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Cod diwygiedig a gyhoeddwyd yn Ionawr 2014.**

www.gov.wales/docs/dsjlg/publications/comm/140130-third-sector-scheme-cy.pdf

## Sut mae Llywodraeth Cymru yn Monitro pwy sy'n glynu wrth ei chod?

Er 2011, mae Canolfan Ragoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru wedi cryfhau'r modd y rheolir cyllid ar draws pob adran ac wedi helpu i sicrhau bod pawb yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector.

Mae'r gwaith hwn yn cynnwys y canlynol:

- Mae rhanddeiliaid allweddol wedi cytuno ar brosesau rheoli grantiau symlach wedi'u hategu gan safonau gofynnol, arweiniad, hyfforddiant a'r Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Grantiau;
- Porth arweiniad i grantiau a chyllid i roi arweiniad parhaus;
- Llythyr dyfarnu grant safonol sy'n mynnu bod y grantiau'n canolbwyntio ar ddeilliannau ynghyd â thempled 'taliadau ymlaen llaw';
- Gwell prosesau diwydrwydd dyladwy er mwyn gallu monitro trefn lywodraethu, rheolaeth ariannol a pholisïau yn y mudiadau sy'n derbyn cyllid;
- Mwy o brosesau diwydrwydd dyladwy er mwyn gallu monitro cyrff allanol a'u perfformiad;
- Gweithio ar draws pob adran er mwyn canfod arferion da a'u rhannu.

## Adroddiadau Blynyddol

Mae Adroddiad Blynyddol ar Reoli Grantiau yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Yn ogystal, mae adroddiad pellach ar gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector yn cael ei baratoi i Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ei ystyried. Mae'r adroddiad yn crynhoi unrhyw faterion sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn ac, yn benodol, yn nodi unrhyw faterion systemig sy'n ymwneud â'r Cod.

Mae'r Is-bwyllgor yn adrodd i Gyngor llawn Partneriaeth y Trydydd Sector, a gall y Cyngor hwn yn ei dro godi unrhyw faterion perthnasol gyda'r Gweinidog Perthnasol yng Nghymru (y Gweinidog Cymunedau a Phlant adeg cyhoeddi'r Adroddiad hwn), sy'n cadeirio'r Cyngor.

## Faint wnaeth Llywodraeth Cymru ei wario ar y Trydydd Sector yn 2015-16?

Rydym wedi parhau i ddatblygu a gwella'r broses a'r systemau casglu data sy'n cefnogi ac yn darparu'r data a ddefnyddir i gyfrifo'r gwariant a ddangosir isod.

Yn 2015-16 gwariodd Llywodraeth Cymru £289.4 miliwn ar ariannu'r Trydydd Sector yn uniongyrchol.

Nid yw hyn yn cynnwys taliadau anuniongyrchol a wnaed i sefydliadau'r Trydydd Sector os yw Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i sefydliad arall, er enghraifft, Awdurdod Lleol, a allai fod wedi ariannu sefydliadau'r Trydydd Sector yn ddiweddarach.

Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adroddiad ar wahân ar Reoli Grantiau. Mae'r ffigurau yn y ddogfen honno yn wahanol i'r ffigurau yn y ddogfen hon. Y rheswm dros hyn yn rhannol yw bod yr adroddiad hwn yn cynnwys gwariant caffael a gwariant grant, ac nid dim ond gwariant grant.

Mae'r cyllid grant i'r Trydydd Sector yr adroddwyd arno yn Adroddiad 2015 Llywodraeth Cymru ar Reoli Grantiau yn adlewyrchu amgylchiadau amrywiol ar draws llawer o adrannau Llywodraeth Cymru. Mae'r sefyllfa economaidd gyffredinol a'r gostyngiad yng nghyllid Llywodraeth y DU ar gyfer Cymru yn anorfod wedi cael effaith ar gyllid ar draws pob sector.

Mae ffigurau cyllid cyffredinol ar gyfer y Trydydd Sector, gan gynnwys caffael, wedi dangos bod y gostyngiad mewn arian grant yr adroddwyd arno wedi cael ei leddfu i raddau os cafodd y cyllid ei ddarparu drwy gontractau caffael.

Yn 2015-16, llwyddodd y Trydydd Sector i ddenu £41.37 miliwn mewn gwariant caffael. Ers 2012-13, mae'r Trydydd Sector wedi sicrhau £223 miliwn mewn gwariant caffael uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

# Astudiaeth Achos

## Menter Gymdeithasol Gymunedol – Cambrian Aquatics/Pwll Nofio Cei Connah



Pwll Nofio Cei Connah



Pwll Nofio Cei Connah Cambrian Aquatics

**Mae Pwll Nofio Cei Connah yn gyfleuster sy'n darparu gweithgareddau dŵr ers tro yn ardal Sir y Fflint ac mae sawl cenhedlaeth o'r gymuned leol wedi gwerthfawrogi'r adnodd hwn. Mewn ymgais i sicrhau defnydd a hyfywedd ariannol y pwll yn y tymor hir, gyda'r pwysau ar gyllidebau cyrff cyhoeddus, gofynnodd Cyngor Sir y Fflint i'r gymuned leol gymryd yr awenau a rhedeg y cyfleuster fel rhan o broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol. Y gobaith oedd y byddai hyn yn osgoi'r angen i gau'r pwll neu leihau'r oriau agor ar draws cyfleusterau hamdden y sir.**

Bu'r grŵp cymunedol Cambrian Aquatics yn gweithio gyda'r Cyngor, Nofio Cymru, Chwaraeon Cymru a Busnes Cymdeithasol Cymru i gwblhau'r broses o drosglwyddo'r ased ym mis Mai 2016.

Ers cymryd yr awenau, mae Cambrian wedi ehangu'r hyn y mae'r pwll yn ei gynnig gyda rhaglenni nofio newydd ar gyfer pobl anabl a pherfformiad uwch, ac maent ar y ffordd i fod yn un o sefydliadau blaenllaw yr ardal sy'n 'dysgu nofio'. Mae Cambrian yn gweithio'n agos gyda 12 ysgol gynradd, Coleg Cambria, Cymdeithas Frenhinol Achub Bywyd a Nofio Cymru i gynnig cyfleoedd hyfforddiant, addysg a phrentisiaethau ar lefel genedlaethol. Gall preswylwyr gymryd rhan mewn dros 60 o chwaraeon dŵr yn y pwll, o nofio a snorclo i bolo dŵr a cheufadu.

Cafodd 27 swydd newydd eu creu ar ôl i Cambrian gymryd yr awenau, a drwy brentisiaethau a hyfforddi staff, nod Cambrian yw darparu llwybr go iawn i bobl ifanc feithrin gyrfa yn y diwydiant hamdden yn eu hardal leol.

# Astudiaeth Achos

## Rhoi Cymorth i Ofalwyr – Canolfan Gofalwyr Abertawe



Y rheini a ddaeth i Ddiwrnod Hawliau Gofalwyr 2016



Cyfranogwyr yng nghôr Canolfan Gofalwyr Abertawe

**Mae "Gene" yn gofalu am ei mam, sy'n 90 oed ac yn byw yn ei chartref ei hun. Mae Gene wedi bod yn ofalwr ers 15 mlynedd a dydy hi ddim wedi gweithio drwy gydol y cyfnod hwnnw. Gene yw prif ofalwr ei mam, ond roedd hi'n awyddus i fynd yn ôl i weithio'n rhan-amser.**

Pan ymunodd Gene â'r prosiect Sgiliau Bywyd 2 yng Nghanolfan Gofalwyr Abertawe, roedd yn amlwg nad oedd ganddi hyder yn ei gallu ei hun.

Treuliodd staff a gwirfoddolwyr Canolfan Gofalwyr Abertawe amser â Gene ar sail un-i-un, yn casglu ei hanes gwaith yn ogystal â throi ei rôl ddiweddar fel gofalwr yn set o sgiliau y byddai modd eu cyfleu ar CV.

Roedd Gene yn teimlo bod angen mwy o gymorth ymarferol arni er mwyn iddi fagu hyder i fod yn barod i weithio. Cofrestrodd i fynd ar gwrs TG 10 wythnos i ddechreuwyr a dilynodd gwrs lefel dau ar Gymorth Cyntaf mewn Argyfwng.

Aeth i sesiynau clwb gwaith wythnosol yn y Ganolfan a chyda rhywfaint o gefnogaeth gan y prosiect Sgiliau Bywyd 2, cafodd gyfweliad am dair swydd a chynigiwyd dwy iddi.

Penderfynodd dderbyn rôl yn y siop Tesco leol.

# Astudiaeth Achos

## Busnes Cymdeithasol – Elite Paper Solutions (EPS)

**Mae EPS yn cynnig gwasanaeth ailgylchu a rhwygo gwastraff papur cyfrinachol i sefydliadau preifat, cyhoeddus a'r sector gwirfoddol ledled de Cymru.**

Sefydlwyd EPS ym Merthyr Tudful ym mis Ionawr 2015 gan yr elusen, ELITE Supported Employment Agency Ltd, sydd wedi'i lleoli yn ne Cymru. Y bwriad oedd cynnig cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant a gwirfoddoli i bobl ag anableddau neu bobl sy'n wynebu anfanteision. Fe'i sefydlwyd i fynd i'r afael â'r lefel o amddifadedd ariannol ac allgáu cymdeithasol mae pobl yn siroedd Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Chaerffili yn ei hwynebu, sy'n digwydd am eu bod yn ei chael yn anodd ymgysylltu neu gael gafael ar gyfleoedd gwirfoddoli, hyfforddiant a chyflogaeth prif ffrwd oherwydd eu gofynion cymorth. Mae ELITE Paper Solutions yn cynnig ymyrryd i ymgysylltu ag unigolion drwy roi cymorth un i un, a chynnig hyfforddiant galwedigaethol wedi'i deilwra yn eu gweithle.

Mae'r model busnes wedi'i seilio ar y cysyniad "nad oes yr un contract yn rhy fach". Yn sgil hyn, mae wedi llwyddo i ymgysylltu â busnesau a fyddai wedi delio â'r gofynion hyn yn fewnol yn flaenorol, a oedd yn gostus ac yn aneffeithiol iddynt, ond sy'n creu incwm effeithiol i EPS. Mae eu gwasanaeth yn atal cynnyrch gwastraff papur rhag mynd i'r safle tirlenwi. Mae hyn wedyn yn lleihau ôl troed carbon cwsmeriaid ac yn helpu sefydliadau mewn modd anuniongyrchol gyda'u Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol, drwy greu gwaith i bobl ag anableddau neu bobl sy'n wynebu anfanteision. Felly, mae EPS yn cynnig manteision arbed costau i'r cwsmeriaid yn eu busnesau yn ogystal â mynd i'r afael â materion amgylcheddol a chydraddoldeb yn eu cwmni.



Elite Paper Solutions – Busnes Cymdeithasol yng Nghymru

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae EPS wedi sefydlu ac wedi ehangu ei safle ym Merthyr Tudful. Mae hyn wedi rhoi cyfle i 41 o bobl ag anableddau neu bobl sy'n wynebu anfanteision gael gwaith cyflogedig, hyfforddiant neu gyfle i wirfoddoli. Llwyddodd pawb i gael eu hachredu, ac mae 17 wedi symud ymlaen i waith, hyfforddiant a chyfleoedd gwirfoddoli annibynnol yn eu cymunedaus.

Mae prosiect Busnes Cymdeithasol Cymru wedi helpu i greu 11 swydd a phrosesau rheoli newydd wrth iddynt baratoi i gyrraedd y safon BSI. Roedd EPS ymysg y busnesau yn rownd olaf Gwobrau Busnes Cymdeithasol Cymru.

# Rhagor o Wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i’r Trydydd Sector, ewch i: www.gov.wales/topics/people-andcommunities/communities/voluntarysector/?skip=1&lang=cy

Fel arall, cysylltwch ag Uned y Trydydd Sector yn:

thirdsectorqueries@wales.gsi.gov.uk, neu ffoniwch y rhif (0300 062 8274).

I gael rhagor o wybodaeth am wirfoddoli, ewch i www.gwirfoddolicymru.net/

neu ewch i’ch Cyngor Gwirfoddol Sirol neu’ch Canolfan Wirfoddol leol www.wcva-ids.org.uk/

I gael rhagor o wybodaeth am raglenni grant eraill, cysylltwch â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) ar (0800) 2888329. Dyma eu gwefan www.wcva.org.uk

# Nodiadau

All photos used with permission of Wales Council for Voluntary Action

OGL © Hawlfraint y Goron 2017
WG30770 ISBN digidol 978-1-4734-9350-6 ISBN argraffu 978-1-4734-9351-3